**RHYBUDD o Benderfyniadau'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni ar Dydd Mercher, 9 Ionawr 2019.**

***[Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig, a bydd cofnodion llawn o'r cyfarfod gerbron y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion i'w cymeradwyo.***

***Mae'r dogfennau ar gyfer y cyfarfod uchod ar wefan y Cyngor ynghyd â gweddarllediad o'r gweithgareddau].***

| | |
|---|---|
| **Yn bresennol:** | Y Cynghorydd Nicola Roberts (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Richard Owain Jones (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr John Griffith, Glyn Haynes, T Ll Hughes MBE, K P Hughes, Vaughan Hughes, Eric Wyn Jones, Bryan Owen, Dafydd Roberts a Robin Williams |
| **Ymddiheuriadau:** | Dim |
| **Hefyd yn bresennol:** | Dim |

1:00 y.p. tan 1:20 y.p.

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **3 COFNODION** |
| PENDERFYNIAD | **Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd ar 5 Rhagfyr, 2018 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **4 YMWELIAD SAFLEOEDD** |
| PENDERFYNIAD | **Ni chafodd unrhyw ymweliadau safle eu cynnal yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion ar 5 Rhagfyr, 2018.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **6 CEISIADAU A FYDD YN CAEL EI GOHIRIO** |
| PENDERFYNIAD | **Ni ystyriwyd unrhyw geisiadau o'r fath gan y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **7 CEISIADAU'N CODI** |

| | |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | **7.1 14C257 - Cais amlinellol ar gyfer codi annedd fforddiadwy yn cynnwys manylion llawn am y fynediad i gerbydau a draenio gyda'r holl faterion eraill wedi eu cadw yn ôl ar dir ger Cefn Trefor, Trefor.**<br><br>**Penderfynwyd gohirio ystyried y mater yn unol ag argymhelliad y Swyddog am y rhesymau a roddwyd.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **8 CEISIADAU ECONOMAIDD** |
| PENDERFYNIAD | **Ni ystyriwyd unrhyw geisiadau o'r fath gan y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **9 CEISIADAU AM DY FFORDDIADWY** |
| PENDERFYNIAD | **Ni ystyriwyd unrhyw geisiadau o'r fath gan y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **10 CEISIADAU'N GWYRO** |
| PENDERFYNIAD | **Ni ystyriwyd unrhyw geisiadau o'r fath gan y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **11 CYNIGION DATBLYGU A GYFLWYNWYD GAN GYNGHORWYR A SWYDDOGION** |
| PENDERFYNIAD | **11.1 48C182B/MIN - Mân newidiadau i gynllun sydd wedi ei ganiatáu yn flaenorol o dan ganiatâd cynllunio 48C182 er mwyn dileu amodau (12), (13) a (14) (cod cartrefi cynaliadwy) ynghyd â chreu amod newydd (rhaid ymgymryd â'r datblygiad a ganiateir gan y caniatâd hwn yn fanwl yn ôl y cynllun) o dan ganiatâd Cynllunio 48C182A/DA ar dir ger Bryn Twrog, Gwalchmai.**<br><br>**Penderfynwyd Cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad ac adroddiad y Swyddog.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **12 GWEDDILL Y CEISIADAU** |

| | |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | **12.1 32LPA1047/CC - Cais llawn ar gyfer codi 6 annedd ynghyd â chreu mynedfa i gerbydau ar dir yn Tre Ifan, Caergeiliog.**<br><br>**Penderfynwyd cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad ac adroddiad y Swyddog gyda'r amodau cynllunio sydd wedi eu cynnwys ac yn amodol hefyd ar gynnwys amod ychwanegol mewn perthynas â mesurau lliniaru sŵn.**<br><br>**12.2 FPL/2018/4 - Cais llawn ar gyfer dymchwel y modurdai presennol ynghyd â chodi 4 annedd un person yn cynnwys lle parcio ym Maes yr Ysgol, Caergybi.**<br><br>**Penderfynwyd cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad ac adroddiad y Swyddog gyda'r amodau sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.**<br><br>**12.3 FPL/2018/24 - Cais ôl weithredol ar gyfer adeiladu mynedfa amaethyddol a ffurfiodd ran o Adran 4 Ffordd Gyswllt Llangefni yn A5514, Llangefni**<br><br>**Penderfynwyd cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad ac adroddiad y Swyddog gyda'r amodau sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.**<br><br>**12.4 39C597 - Cais llawn ar gyfer codi annedd ynghyd ag addasu'r fynedfa bresennol i gerbydau ar dir yn hen Chwarel Cambria, Ffordd Cambria, Porthaethwy.**<br><br>**Penderfynwyd cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad ac adroddiad y Swyddog gyda'r amodau sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad ac yn amodol hefyd ar amod ychwanegol yn gofyn am gael delio gydag unrhyw dir llygredig fel rhan o'r datblygiad.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **13 MATERION ERAILL** |
| PENDERFYNIAD | **Ni ystyriwyd unrhyw geisiadau o'r fath gan y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.** |